**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Annwyl Aelodau'r Cynulliad

27 Mawrth 2017

Annwyl Aelodau,

Rwy'n ysgrifennu atoch am y diweddaraf am sefyllfa Newsquest yng Nghasnewydd, yn dilyn ymholiad diweddar yn y Siambr.

Mae'r cwmni wedi cadarnhau i fod wrthi'n ymgynghori ynghylch nifer o swyddi fydd yn cael eu colli ac fel y deallwn, 14 yw'r nifer ar hyn o bryd. Mae hyn yn ychwanegol at y 44 o ddiswyddiadau a gyhoeddwyd yn 2016.

Mae'r cwmni wedi darparu'r datganiad a ganlyn ynghylch y swyddi fydd yn cael eu dileu:

*Oherwydd y pwysau economaidd di-dor ar Ddiwydiant y Cyfryngau, mae angen adolygu sefyllfa'n busnes yn rheolaidd i wneud yn siŵr ei fod yn rhedeg yn effeithiol ac yn effeithlon ym mhob maes.*

*Gwaetha'r modd, o ganlyniad, mae strwythur newydd wedi'i gynnig a allai arwain at ddiswyddiadau yn swyddfa Casnewydd. Er hynny, mae gennym tua 60 o staff o hyd yng Nghasnewydd sy'n rhoi help canolog i'r timau Golygyddol a Chyhoeddi ar draws Newsquest. Hefyd, mae Newsquest wedi crynhoi nifer o Weithgareddau Ariannol y Grŵp yn swyddfa Casnewydd, sy'n cyfrif am 80 o staff ychwanegol.*

*Mae Newsquest wedi ymrwymo i'w weithgareddau yng Nghasnewydd. Yno y cyflogir y nifer fwyaf o staff sy'n cefnogi gwaith Grŵp Newsquest yn y DU.*

Mae swyddogion yn dal i siarad â Newsquest am ei fwriad i ddileu swyddi ac mae manylion cysylltiadau yn Gyrfaoedd Cymru a gwasanaethau ReACT wedi'u rhoi iddo. Mae nifer o'r rheini efallai yr effeithir arnyn nhw wedi elwa o hyfforddiant sy'n meithrin sgiliau y gallan nhw eu trosglwyddo i rolau newydd.

Mae'r grŵp yn dal i gyflogi nifer dda o staff ar y safle i ddarparu gwasanaethau golygyddol eraill cysylltiedig i'r grŵp. Rydym yn chwilio am gadarnhad gan y cwmni ynghylch diswyddiadau pellach a byddwn yn adolygu lefelau staffio ar y safle o safbwynt eu hamgylchiadau ariannol maes o law.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym eisoes wedi cyhoeddi y byddwn yn sefydlu fforwm cyfryngau annibynnol i ystyried dyfodol y cyfryngau a darlledu yng Nghymru, gan gynnwys sector y cyfryngau print.  Mae trefniadau yn cael eu gwneud i'r perwyl hwnnw.

Yn gywir,



**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure